# Eisteddfod Gadeiriol Llanegryn 2018

Cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Llanegryn yn Neuadd Egryn ar ddydd Sadwrn 17eg o Chwefror. Y beirniaid eleni oedd: Cerdd a Cherdd Dant, Gwennant Pyrs, Penrhosgarnedd. Llefaru ac Alaw Werin, Eleri Richards, Penrhosgarnedd a Llenyddiaeth agored, Karen Owen, Penygroes.
Tudur Jones, Tywyn oedd yn cyfeilio yn ôl yr arfer, a'r arweinyddion oedd, Edward Jones, Janet Pugh a Mair Rees. Diolch iddynt oll am eu gwaith. 'Roedd yn braf croesawu Eirlys Jones, Aberllefenni yn ôl atom i Lanegryn yn Lywydd yr Eisteddfod eleni a chafwyd atgofion melys o'i hamser yn dysgu yma yn ein plith yn Ysgol Llanegryn, ac hefyd fel y byddai yn mynychu a chystadlu mewn Eisteddfodau lawer gyda'i nain – y diweddar Katie Wyn.
Cafwyd gwaith celf a llenyddiaeth i'w arddangos yn y neuadd gan Ysgol Craig y Deryn ac Ysgol Uwchradd Tywyn, ac roedd y gwaith yn cael ei gloriannu eleni gan Rhiell Elidir, Nia Rowlands, Sian Jarman a Mark Freeman. Diolch iddynt am eu gwaith ac i'r ddwy Ysgol am eu cefnogaeth yn yr adran gwaith llaw.
Bu cystadlu cyson ar y llwyfan drwy gydol y dydd, gyda chystadleuwyr o Gaerwys i Gaerdydd, a'r beirniaid yn canmol y safon uchel.
Roeddem yn falch hefyd o glywed gan Karen Owen bod teilyngdod yng nghystadleuaeth y gadair, a braf oedd gweld Gaenor Mai Jones o Gaerdydd ac Aberystwyth yn cael ei chadeirio.

Canlyniadau Llwyfan -

Unawd meithrin a derbyn: Sara Williams, Bryncrug, Owain Jones, Llanegryn ac Emmi Roberts, Tywyn.

Unawd Bl 2 ac iau: Llio Iorwerth, Trawsfynydd.

Llefaru Bl 2 ac iau: Aneira Jones, Llanegryn.

Unawd Bl 3 a 4: Gwenno Wigley, Talywern.

Llefaru Bl 3 a 4: Gwenno Wigley, Talywern.

Unawd Bl 5 a 6: Lowri Jarman, Llanuwchllyn.

Llefaru Bl 5 a 6: Lowri Jarman, Llanuwchllyn.

Unawd Cerdd Dant Bl 6 ac iau: Lowri Jarman, Llanuwchllyn.

Unawd Alaw Werin Bl 6 ac iau: Lowri Jarman, Llanuwchllyn.

Deuawd Bl 9 ac iau: Cadi Fflur, Glanrafon a Huw Ifan, Cefnddwysarn.

Unawd Offeryn Cerdd Bl 9 ac iau: Heledd Owen, Bryncrug.

Unawd Merched/Bechgyn Bl 7-9: Osian Hughes, Deiniolen.

Llefaru Bl 7-9: Cadi Fflur, Glanrafon.

Unawd Cerdd Dant Bl 7-9: Cadi Fflur, Glanrafon.

Unawd Alaw Werin Bl 7-9: Cadi Fflur, Glanrafon.

Unawd Offerynol dan 25: Heledd Besent, Pennal.

Unawd dan 25: Mared Jones, Dolgellau.

Unawd dros 60: Hywel Annwyl, Llanbrynmair.

Sgen ti dalent?: Mared Jones, Dolgellau.

Sioe Gerdd dan 25: Heledd Besent, Pennal.

Tarian i'r cerddor mwyaf addawol dan 25: Lowri Jarman, Llanuwchllyn.

Cân Werin: Mared Jones, Dolgellau.

Unawd Gymraeg: Efan Williams, Lledrod.

Llefaru Agored: Heledd Besent, Pennal .

Her Unawd: Efan Williams, Lledrod.

Canlyniadau Llenyddiaeth –
Derbyn: Hana Mumford, Ysgol Craig y Deryn.
Bl 1 a 2: Diani-Grace Gibbins, Ysgol Craig y Deryn.
Bl 3 a 4: Sylvie Morgan, Ysgol Craig y Deryn.
Bl 5 a 6: William Maynard, Ysgol Craig y Deryn.

Tlws yr Ifanc: Howard Truman, Coleg Meirion Dwyfor, Pwllheli.

Cyfieithu: Delyth Lewis, Llangwyryfon.
Erthygl Papur Bro a Thlws Dail Dysynni: Gaenor Mai Jones, Caerdydd.
Englyn: John Ffrancon Griffith, Abergele.
Telyneg: John Meurig Edwards, Aberhonddu.
Limrig: John Meurig Edwards, Aberhonddu.

Canlyniadau Celf -
Meithrin: Anni Jones, Ysgol Craig y Deryn.
Derbyn: Samuel Thorpe, Ysgol Craig y Deryn.
Bl 1 a 2: Aneira Jones, Ysgol Craig y Deryn.
Bl 3 a 4: Dane Ashford, Ysgol Craig y Deryn.
Bl 5 a 6: Tomos Wyn Evans, Ysgol Craig y Deryn.
Bl 10 a 11: Mia Banks, Ysgol Uwchradd Tywyn.